HSC(6) 30-23 PTN 1

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

16 Hydref 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr at y Prif Weinidog, dyddiedig 29 Medi, ynglŷn â Chonfensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol ("y Confensiwn"). Mae'r llythyr wedi cael ei drosglwyddo imi i'w ateb oherwydd bod y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â chynnwys agweddau datganoledig ar gytundebau gofal iechyd cilyddol rhyngwladol, ac effeithiau cytundebau o'r fath a'u gweithrediad, yn dod o dan fy mhortffolio i.

Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn fisol â swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion y llywodraethau datganoledig eraill i gadw mewn cysylltiad ynghylch materion gofal iechyd cilyddol. Fel sy'n ofynnol yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol mewn perthynas â'r Broses Ymgynghori ar gyfer y Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol a'u Rheoliadau Gweithredu, mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys trafod datblygu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol newydd a'u heffaith.

Ers ymadael â'r UE, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn negodi cytundebau nawdd cymdeithasol newydd â'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Nod Llywodraeth y DU wrth wneud hyn yw gosod yr holl wledydd hyn ar yr un sail â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sy'n adfer y mwyafrif o'r trefniadau iechyd cilyddol yr oedd amrywiol ddarpariaethau gofal iechyd cilyddol yr UE yn darparu ar eu cyfer cyn i'r DU ymadael â'r UE. Daeth Confensiwn y DU-y Swistir ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol i rym ar 1 Tachwedd 2021.

Mae bwriad cyffredinol Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r darpariaethau gofal iechyd cilyddol o fewn y Confensiwn wedi bod yn glir felly, ac ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru. Gwnaeth Llywodraeth Cymru sylwadau ar gynnwys y cytundeb hwn yn ogystal â'r cytundeb tebyg – Confensiwn y DU-y Swistir – a gafwyd cyn hynny. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ganddi yn ei negodiadau ar y Confensiwn. Mae'r diweddariadau hynny wedi cynnwys asesiadau o'r effeithiau posibl a'r diweddaraf ynghylch yr amserlenni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llofnodwyd y Confensiwn gan bob parti, ond nid yw wedi dod i rym eto. O safbwynt Gwlad yr Iâ a Liechtenstein, mae swyddogion Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd y Confensiwn yn cael ei ddwyn i rym cyn diwedd 2023. O safbwynt Norwy, disgwylir i hyn ddigwydd ddechrau 2024. Bydd yn digwydd cyn gynted ag y bydd eu cyrff cenedlaethol perthnasol wedi cynnal y gweithdrefnau angenrheidiol.

Cyn y dyddiad dod i rym, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd i Ymwelwyr Tramor) 1989 (“y Rheoliadau Ffioedd”) i ychwanegu Gwlad yr Iâ a Liechtenstein i'r gwledydd hynny sy’n cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau. Mae Norwy eisoes wedi'i rhestru yn y Rheoliadau Ffioedd gan fod cytundeb dwyochrog cyfyngedig sy'n bodoli eisoes rhyngddi â'r DU (Confensiwn 1991 ar Nawdd Cymdeithasol rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Teyrnas Norwy a'r protocol atodol dilynol). Bydd asesiad effaith yn cyd-fynd â'r rheoliadau diwygio gan gynnwys asesiad o’r effaith y disgwylir i’r Confensiwn ei chael ar y GIG.

Bydd holl ddogfennau cyfarwyddyd perthnasol Llywodraeth Cymru a gwefannau'r GIG hefyd yn cael eu diweddaru gan ystyried y trefniadau newydd gyda'r tair gwlad. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r byrddau iechyd lleol am lofnodi'r Confensiwn ac am y darpariaethau, a byddant yn darparu rhagor o wybodaeth pan ddaw'r dyddiad dod i rym yn hysbys.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich cwestiynau.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services